COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD IAU, 23 HYDREF 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HJ David | GC Haines | AJ Williams | MJ Williams |

Presennol – O Bell

| | | |
|---|---|---|
| F D Bletsoe | JPD Blundell | N Clarke |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths, M L Hughes, RL Penhale-Thomas a/ac T Thomas
Y Cynghorydd Jane Gebbie - Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau, Y Cynghorydd Paul Davies - Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd a Y Cynghorydd Eugene Caparros - Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd)
Claire Marchant - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Yr Arweinydd |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod o'r Cabinet dros Adfywiad, Datblygu Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Melanie Evans | Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| | |
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Kelly Watson | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol ac Etholiadau |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Cymunedau |
| | |
| Pete Tyson | Rheolwr Grŵp - Comisiynu |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Ddiddordeb

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Eitem 4 – Personol – Llywodraethwr mewn Ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd A J Williams – Eitem 4 – Personol – Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Brynteg a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety

**171. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 24 Gorffennaf 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Hydref 2025 |

**172. Monitro Cyllideb 2025-26 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 2**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad, a thrafodaeth fanwl gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai cynigion lleihau cyllideb mewn adroddiadau monitro cyllidebau yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion naratif, yn neilltuol:<br><br>a. Lle mae statws gwyrdd RAG i ostyngiadau cyllidebol oherwydd cyllid grant untro ac y byddant |

| | |
|---|---|
| | yn parhau i fod yn bwysau sylfaenol yn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. SSW13), bod y rhain yn cael eu mynegi'n glir;<br>b. Bod arbedion effeithlonrwydd untro i gwrdd â diffygion mewn arbedion wedi cael eu nodi'n glir; ac<br>c. Bod risg ac effaith gostyngiadau cyllidebol ar unigolion yn cael eu hadlewyrchu pan fydd eu statws RAG yn wyrdd fel EEYYP3 a 9 sy'n ymwneud â gostyngiad mewn gwasanaethau cwnsela a staff yn y tîm anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>2. Bu'r aelodau yn trafod effaith tipio anghyfreithlon ar drigolion yn eu hardal leol ac **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried adolygu trefniadau'r Cyngor i orfodi rhai sy'n tipio'n anghyfreithlon ac archwilio'r defnydd posibl o dechnoleg a theledu cylch cyfyng i gynorthwyo.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>3. **Gofynnodd** y Pwyllgor faint o ysgolion cynradd sydd â chyllideb ddiffygiol sy'n fwy na £50,000 a faint o ysgolion uwchradd sydd â chyllideb ddiffygiol sy'n fwy na £150,000.<br><br>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch nifer yr ysgolion sy'n rhagweld cyllideb ddiffygiol a maint y diffygion a **gofynnodd** i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid (EYS OSC) ystyried gofyn am adroddiad i fonitro'r sefyllfa.<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am rannu gydag Aelodau COSC a EYS OSC yr adborth o gyfarfod nesaf y Grŵp Rheoli Cyllidebau Diffygiol Ysgolion, a sefydlwyd i ystyried arfer gorau ar draws ysgolion ac edrych ar y ffordd y mae rhai ysgolion wedi llwyddo i leihau eu diffyg,.<br><br>6. **Gofynnodd** y Pwyllgor beth oedd nifer swyddi gwag llywodraethwyr cymunedol a rhiant lywodraethwyr ym mhob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.<br><br>7. Mewn perthynas â'r Gostyngiadau yng Nghyllideb y Flwyddyn Flaenorol a Ddygwyd Ymlaen i 2025-26, **gofynnodd** y Pwyllgor am ganlyniad yn cadarnhau pryd:<br><br>a. COM 2 (2021-22): roedd telerau gadael y ganolfan ailgylchu yn Llandudwg yn debygol o gael eu cwblhau;<br>b. COM 2 (2023-24): roedd y gorchymyn angenrheidiol ar gyfer codi tâl ar ddeiliaid bathodynnau glas am barcio yn debygol o gael ei gwblhau; a |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | c. COM 28 (2024-25): roedd telerau prydles yr hen Eiddo Woodmat, Ystâd Brynmenyn, yn debygol o gael eu cwblhau.<br><br>8. Mewn perthynas â'r Cynigion i Ostwng Cyllideb 2025-26 i 2028-29, **gofynnodd** y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>a. SSW 2: diweddariad yn cadarnhau pryd roedd yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch defnydd tymhorol posibl o'r Neuadd Bowlio yn debygol o gael ei chwblhau;<br>b. COM 1: pa gyllidebau eraill oedd wedi cael eu nodi os na ellid cyflawni'r gostyngiad yng nghyllidebau milltiroedd staff; a<br>c. COM 11: diweddariad a naratif pellach ynghylch y cyfleoedd yr edrychid amdanynt o ran gosod Depo Pandy yn fasnachol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Hydref 2025 |

## 173. Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, a thrafodaeth fanwl gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol ynghyd â chais am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhelliad**<br><br>9. Bu'r Pwyllgor yn trafod canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru a mynegodd bryder ynghylch disgwyl am yr adroddiad Cenedlaethol cyn llunio cynllun i fynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad Pen-y-bont ar Ogwr. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ceisio eglurder gan Archwilio Cymru ynghylch pryd yr oedd yr Adroddiad Cenedlaethol yn debygol o gael ei gyhoeddi ac, os na cheid ymateb buan, y dylid cynnal ymarferiad i nodi unrhyw themâu sy'n codi o adroddiadau comisiynu Archwilio Cymru ar awdurdodau lleol eraill ynghyd â gwneud dadansoddiad o themâu o awdurdodau lleol cymharol yn destun archwiliad mewnol er mwyn rhoi sicrwydd bod cysoni a safoni yn rhan o ffordd yr Awdurdod o gomisiynu gwasanaethau. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>10. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o gynllun archwilio mewnol 2025-26 oedd yn cynnwys manylion y trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Hydref 2025 |

174. **Adroddiad Diweddaru'r Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ddrafft yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiad canlynol, nododd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn Atodiadau C, D ac E.<br><br>1. Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau (unwaith y bydd yr adroddiad Cenedlaethol ar gael neu y bydd adroddiad y dadansoddiad thematig mewnol wedi ei gwblhau). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Hydref 2025 |

**175. Materion Brys**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Hydref 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:10

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**